DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 61 Ionawr 2007

Cronfa estynedig yn buddsoddi miliynau mewn adfywio Cymru

Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart AC, wedi cytuno i ymestyn Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf am un flwyddyn eto. Mae'r Gronfa wedi dyfarnu nifer o grantiau ar gyfer cyfrifiaduron, offer ar gyfer grwpiau chwarae a chwaraeon, hyfforddiant gwirfoddolwyr, digwyddiadau a gwyliau.

Cyhoeddodd Mrs Hart y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhyddhau £3 miliwn ar gyfer 2007/08 i gefnogi gweithgareddau a drefnir gan bobl sy'n byw mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf sy'n cynnig budd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol.

Rheolir y gronfa gan Rwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf ac fe'i gweinyddir ar ei ran gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Deallir y cynhelir adolygiad o'r Gronfa yn fuan, a'r adolygiad hwnnw fydd sail dyfodol y gronfa ar ôl Mawrth 2008.

Mae ceisiadau ar gyfer y rownd nesaf ar agor rwan, a rhaid i unrhyw fudiad lleol bach sy'n ystyried ymgeisio i'r cynllun fod wedi cyflwyno eu ceisiadau erbyn 31ain Ionawr 2007.

Pecynnau ymgeisio ar gael trwy gysylltu â Llinell Gymorth Cymunedau'n Gyntaf ar 0800 587 8898 neu www.communitiesfirst.info

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

GWYBODAETH

Grantiau Chwarae Mynediad Agored ar Ynys Môn

Mae Grant Chwarae Mynediad Agored yn rhan o fframwaith ar gyfer Partneriaeth Plant a phobl Ifanc ar Ynys Môn, o fewn cyllid Cymorth a ddosrennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi chwarae mynediad agored i blant a phobl ifanc rhwng 5-16 oed.

Yr amcan cyffredinol dan Chwarae Agored yw rhoi cyfleoedd i gyfoethogi chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol, neu ar benwythnosau yn ystod Rhagfyr, am bris isel iawn mewn ardaloedd difreintiedig.

Rhoddir blaenoriaeth ar gyfer yr arian hwn i wardiau dynodedig 'Cymorth' i bwrpas chwarae mynediad agored ar Ynys Môn, mae'r rhain yn bennaf yng **Nghaergybi, Amlwch, Llangefni, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo, Aberffraw, Gwalchmai, Bryngwran, Llannerchymedd, Moelfre, Llanfaes.**

Gall **grantiau o hyd at £1,000** fod ar gael i'w rhannu gan banel 'Cymorth' o Pasg 2007 ymlaen ar gyfnodau gwahanol yn ystod y flwyddyn - peidiwch â cholli'r cyfle

Gall mudiadau tu allan i ardaloedd 'Cymorth' a enwir uchod gyflwyno cais hyd at uchafswm o £500.00 os gallant ddangos tystiolaeth o amddifadedd oddi fewn i'w hardal.

Manteisiodd amryw o grwpiau o'r cyllid hwn, ond anogir grwpiau newydd i ystyried ymgeisio i ddarparu cyfleoedd chwarae cyffrous.

Am sgwrs anffurfiol a syniadau ar brosiectau sy'n cyfuno agweddau gwahanol o chwaraeon / gemau / chwarae / celfyddydau / ymweliadau / gweithdai cysylltwch â:
Bethan Lloyd Jukes Swyddog Datblygu Chwarae Môn
yn Medrwn Môn ar 01248 724944.

NEWYDDION

Cyllid i wirfoddolwyr ifanc

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi addo arian newydd eleni ar gyfer gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc. Gobeithir denu miloedd o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau o fudd iddyn nhw eu hunain ac i'w cymunedau.

Mae'r cyllid yn dilyn argymhellion Comisiwn Russell ynghylch datblygu strategaeth ar gyfer gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc yn y DU.

Y pedwar cynllun yw:

§ ***Gwirfoddolwyr y Mileniwm*** - rhaglen o wirfoddoli ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sy'n cefnogi prosiectau peilot strategol ar gyfer mudiadau cenedlaethol ledled Cymru sydd eisiau datblygu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc.
Bydd cyllid dwy flynedd o hyd at £30,000 y flwyddyn ar gael i chwe mudiad llwyddiannus sy'n gallu dangos bod y gweithgareddau gwirfoddoli ymhlith ieuenctid yn gynaliadwy y tu hwnt i gyfnod y cyllid.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Leah Doherty ar 02920 431 750 neu ldoherty@wcva.org.uk ac am becyn ymgeisio, cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu www.wcva.org.uk

§ Bydd ***Amgylchedd Cymru*** yn caniatáu i brosiectau cofrestredig ymgeisio am grantiau o hyd at £5,000 ar gyfer 2006-2007 i gynnwys pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed mewn gwirfoddoli amgylcheddol.

Rhaid i'r gweithgareddau gwrdd ag amcanion Amgylchedd Cymru a chynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, hyfforddiant a meithrin sgiliau. Gallai hyn gynnwys sesiynau blasu, gweithgareddau maes, prosiectau dan arweiniad pobl ifanc a lleoliadau tymor hwy.

Am fwy o fanylion, dylai grwpiau sy'n cynllunio prosiectau gysylltu â Swyddfa Amgylchedd Cymru ar 029 2043 1769, gwefan: www.environment-wales.org

§ Mae ***Cronfa Gwirfoddoli ymhlith Ieuenctid*** (Comisiwn Russell) yn elfen ychwanegol a neilltuedig o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf a fydd yn cynnig grantiau o hyd at £15,000 i helpu mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ar lefel leol i dderbyn a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc yn eu cymunedau.

Mae'n rhaid i fudiadau fod eisoes yn cynnig gweithgareddau dan arweiniad pobl ifanc neu'n gweithio gyda phobl ifanc sydd a'r potensial i gynyddu ac arallgyfeirio cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli.

§ Mae ***Cymru:Y Gymdeithas Fyw*** yn rhoi grantiau o hyd at £10,000 ar gyfer astudiaethau dichonoldeb i fudiadau sydd eisiau treialu ffyrdd newydd ac arloesol o gynnwys pobl ifanc mewn gwirfoddoli.

Am becyn ymgeisio, cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 08000 2888 329, neu activecommunity@wcva.org.uk

NEWYDDION CYLLIDO

Sefydliad Gofal Iechyd Barchester

Ein cenhadaeth:

Cenhadaeth y Sefydliad yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn ac oedolion ag anableddau, cynorthwyo i gael atebion ymarferol sy'n arwain i gynnydd o annibyniaeth bersonol, hunangynhaliaeth ac urddas.

Ein hamcan:

Amcan y Sefydliad yw rhoi grantiau i fudiadau sydd wedi adnabod iechyd ag anghenion gofal cymdeithasol na allant eu cyfarfod gan y sector gyhoeddus, neu gan yr unigolion eu hunain.

Pwy all elwa:

Pobl Hŷn
Oedolion ag anableddau corfforol
Oedolion ag anableddau meddyliol

Ansawdd bywyd pobl hŷn ag oedolion anabl sydd yng nghalon y sefydliad yma, weithiau fe all swm bychan o gymorth ychwanegol wneud y gwahaniaeth.

Ffafrir ceisiadau ble mae'r budd yn amlwg ac yn hawdd i'w adnabod.

Fe all maint y grant amrywio rhwng £100 a £10,000

Prosesir ceisiadau mor fuan ag sy'n bosib, ac fe glywch gan y Sefydliad oddeutu 10 wythnos o ddyddiad cyflwyno'ch cais.

Am fwy o wybodaeth ar y broses ymgeisio, ac os ydych yn gymwys i gyflwyno cais am gyllid ymwelwch â: www.bhcfoundation.org.uk

---

HELPWCH DDIOGELU HANES YNYS MÔN

Mae angen gwirfoddolwyr ar frys i gymryd rhan mewn Prosiect Hanes Llafar dwyieithog cyffrous ar Ynys Môn.

Mae cynlluniau wedi eu gwneud, bydd hyfforddiant ar gael, ac mae cyllid wedi ei dderbyn …… yr oll sydd ei angen yw CHI - i helpu ni i'w weld drwodd at y diwedd. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Nicola Thomas, (RSVP) ar 07796991293
neu Joy Mawby ar 01248 852623.

NEWYDDION CYLLIDO

Cronfa'r Teulu

Cronfa'r Teulu yw'r sefydliad annibynnol mwyaf sy'n rhoi grantiau i deuluoedd yn y DU sy'n gofalu am blentyn / plant difrifol anabl sy'n byw gartref.

Yn ystod 2005 / 06 dosbarthwyd grantiau i bron 50,000 o deuluoedd ar hyd a lled y DU.

Darperir grantiau sy'n berthnasol i anghenion plant neu bobl ifanc anabl - cyn belled a bod y teulu'n cwrdd â'r meini prawf talu grantiau sy'n cynnwys:

- § Bod â phlentyn neu berson ifanc dan 16 oed sy'n ddifrifol anabl
- § Bod ac incwm sy'n cynnwys budd-daliadau gwladol yn unig.
- § Bod ag incwm a enillwyd o £25,000 neu lai yng Nghymru.
- § Bod a chynilion o £18,000 neu lai

Nid yw'r rhestr meini prawf hwn yn gwbl gyflawn a chaiff pob cais ei ystyried yn unigol. Mae pob grant yn ddewisol ac yn dibynnu ar y ffaith bod arian ar gael. Derbynnir cyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol ac yn uniongyrchol gan deuluoedd.

Eitemau grant y gellir cael help yn cynnwys:

- § Teganau arbenigol
- § Gwersi gyrru
- § Gwyliau teuluol.
- § Offer hamdden - fel cyfrifiadur neu drampolîn.

Ystyrir ceisiadau sy'n gofyn am eitemau eraill, cyn belled â'u bod yn uniongyrchol berthnasol i anghenion a gofal y plentyn.

Derbynnir nifer fawr o geisiadau wythnosol, anelir i ddelio gyda cheisiadau o fewn 12 wythnos, ond yn hirach yn ystod yr haf pan wneir llawer o geisiadau am grantiau gwyliau.

Os yw teuluoedd yn derbyn budd-daliadau gwladol, dylid pob amser ystyried cais i'r Gronfa Gymdeithasol cyn dod at y Gronfa Teulu, ar gyfer pethau fel peiriannau golchi, costau dillad a dillad gwely neu i dalu am welliannau i ddiogelwch y cartref.

Wrth wneud hyn efallai gall y Gronfa Teulu helpu teuluoedd gydag eitemau lle nad oes unrhyw ffynhonnell grant arall ar gael iddynt.

Os oes unrhyw deulu yn wynebu anawsterau eithriadol neu sefyllfa frys, dylid cysylltu â chydlynydd Cymru: Ann Shercliff 01793 361498 neu ash@familyfund.org.uk neu ymwelwch â'r wefan ar: www.familyfund.org.uk

NEWYDDION CYLLIDO

Age Concern

Yn dilyn adolygiad sylweddol diweddar ail lansiwyd rhaglenni cynnig grantiau Age Concern Lloegr (hefyd yn cynnwys Cymru). Mae Age concern yn bencampwr dros hawliau a lles pobl hyn. Mae'n darparu grantiau i elusennau, mudiadau gwirfoddol a grwpiau ddim er elw sy'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau er lles pobl hŷn.

Mae dwy raglen grantiau ar gael i unrhyw glwb elusennol neu wirfoddol yn Lloegr a Chymru: **Rhaglen 'Bright Ideas' a Rhaglen Barclays.**

Mae'r Rhaglen 'Bright Ideas' yn cynnig grantiau i fyny at £2,000 i unrhyw gorff gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau er lles pobl hŷn fydd ag effaith uniongyrchol a pharhaol. Gellir defnyddio'r grant i gostau cyfalaf neu refeniw sy'n annatod i ddatblygiad neu ymestyniad unrhyw weithgaredd.

Mae Rhaglen Barclays yn cynnig grantiau bychain i fyny at £150 i unrhyw grŵp elusennol neu wirfoddol. Grantiau i eitemau bychan o offer neu eitemau penodol all wella gwasanaeth neu weithgaredd i bobl hŷn.

Gellir cyflwyno cais ar unrhyw bryd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

The Grants Unit, Age Concern England, Astral House,
1268 London Road, LLUNDAIN, SW16 4ER
Ffon: 020 8765 7738 Ffacs: 020 8679 9154
e-bost: grants.unit@ace.org.uk Gwefan: www.ace.org.uk

Seminar Rhanbarthol SNAP Cymru

Cynhelir seminar rhanbarthol SNAP Cymru ar 7fed o Chwefror 2007 yn Venue Cymru, Llandudno.Thema'r diwrnod yw Deall diagnosis y plentyn.Prif siaradwr y dydd yw'r byd enwog Athro David Crystal Os hoffech fynychu'r seminar cysylltwch â: Bethan Pritchard, SNAP Cymru, Uned 12a, Llys Onnen, Ffordd - y – Llyn, Parc Menai, BANGOR LL57 4DF
Ffôn: 01248 674 999 Ffacs: 01248 674 998
E-bost: bethan.pritchard@snapcymru.org

Mae **Canolfan Lôn Abaty** yn eich gwahoddi i'w DIWRNOD GWYBODAETH wythnosol bob dydd Mercher rhwng 10.00am a 12.00pm. Cewch gyngor AM DDIM gan yr asiantaethau isod:Canolfan Cynghori - Cymdeithas Tai Gogledd Cymru - Cynllun Bond Agorfa.
Galwch i mewn am sgwrs a chyngor. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Canolfan Lôn Abaty, 5 – 9 Abbey Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2EA
Ffôn: 01248 354888.

HYFFORDDIANT CGGC

CYRSIAU HYFFORDDIANT CGGC

Datblygu mudiad cyfeillgar i wirfoddolwyr
1 Chwefror 2007, Bae Colwyn Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165

Gwarchod data
5 Chwefror 2007, Bae Colwyn Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165

Ymgysylltu â grwpiau anodd i'w cyrraedd
8 Chwefror 2007, Bangor Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165

Gweinyddu
1 Mawrth 2007, Y Rhyl Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165

Rheoli gwirfoddolwyr yn effeithiol (cwrs tri diwrnod)
6, 7 a 8 Mawrth 2007, Llandudno Cost: **A** 230 **B** 260 **C** 350

Cymryd cofnodion
12 Mawrth 2007, Y Rhyl Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165

Negeseuon recriwtio gwirfoddolwyr effeithiol
20 Mawrth 2007, Bae Colwyn Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165

Ymgynghori gyda'r gymuned
23 Mawrth 2007, Bangor Cost: **A** 100 **B** 130 **C** 165

Bandiau prisiau (Nid yw'r prisiau hyn yn cynnwys TAW) **A** Aelodau WCVA
B Mudiadau gwirfoddol a chymunedol **C** Cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat

Am fwy o wybodaeth ewch i www.wcva.org.uk/training, ffoniwch 02920 431723 neu ebostiwch training@wcva.org.uk

---

Llyfryn Hyfforddi 2007 'Empower Support for the Voluntary Sector'

I gael copi o'r daflen am ddim galwch 01874 730067 neu e-bostiwch info@empowersvs.co.uk

Ymwelwch â'u gwefan www.empowersvs.co.uk

Arweinlyfr Cyflenwyr y Trydydd Sector 2007

Mae'r cyfeirlyfr uchod sy'n rhestru gwasanaethau cwmniau ar gael i'w weld yn swyddfa Medrwn Môn.

NEWYDDION IECHYD

CYNGHRAIR AFIECHYDON CRONIG / NIWROLEGOL

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i weld mudiadau gwirfoddol edrych at ddatblygu cynghrair hefo mudiadau sy'n cynnig gwasanaethau afiechydon cronig. Beth yw eich barn? A fyddai eich grwp yn manteisio o ymuno â'r math yma o gynghrair ar yr ynys, i fod yn llais cryfach pan fydd comisiynu'n digwydd, cefnogi eich gilydd, rhannu gwybodaeth?

Cynhelir cyfarfod cyntaf ar 20 Chwefror, yn swyddfa Medrwn Môn, am 2pm. Ms Sue Lloyd yw'r hwylusydd, Cynghrair Niwrolegol, gobeithir hefyd cael cynrychiolwr o'r Bwrdd Iechyd Lleol. Cadarnhewch, os gwelwch yn dda, eich diddordeb fel aelod ac os ydych am fynychu neu beidio yn y cyfarfod cyntaf.

GRWP CEFNOGAETH CLEFYD SIWGR

A wyddoch chi am berson sydd yn dioddef o glefyd siwgr a fuasai'n dymuno mynychu grwp cefnogaeth? Bydd Clefyd Siwgr Cymru yn cychwyn grwp cefnogaeth ar Ynys Môn. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 19 Chwefror yn Neuadd Eglwys, Y Dinlle, Llangefni am 6pm - 8pm.

Os oes gennych ddiddordeb neu'n gwybod am berson fuasai'n hoffi mynychu, cysylltwch ag Ann Perkins ar 01248 724944 neu ebost: ann@medrwnmon.org

---

Ehangiad lleol o gefnogaeth cleifion Cancr y Fron

Mae Gofal Cancr y Fron Cymru ar hyn o bryd yn recriwtio gwirfoddolwyr cefnogaeth cyfoed am y tro cyntaf yng Ngogledd Cymru er mwyn cyrraedd anghenion cleifion cancr y fron. Mae'r gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth cefnogaeth dros y ffôn un i un ar ôl derbyn hyfforddiant llawn gyda Gofal Cancr y Fron i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan gancr y fron. Mae'r holl wirfoddolwyr wedi cael profiad personol o gancr y fron eu hunain ac yn mynd ymlaen i gynnig cefnogaeth emosiynol i eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.

Mae'r hyfforddiant yn cychwyn ym Mawrth 2007, os hoffech wybodaeth bellach am y cyfle yma cysylltwch ag Elin Davies ar 029 2023 4070 neu e-bost:

Offer cyfrifiadurol ail-law ar gael i grwpiau gwirfoddol / cymunedol

Derbyniwyd offer cyfrifiadurol ail-law safonol: 5 'laptop' (3 di-wifren), 1 cyfrifiadur , 2 argraffydd, 1 sganiwr, dyfais siarad naturiol, man gyfarpar arbennigol a meddalwedd.l Croesewir ceisiadau gan grwpiau gwirfoddol / c ymunedol sydd â gwir angen offer i ddatblygu gwaith eu grwp ar yr ynys. Dewisir y grwpiau llwyddiannus i dderbyn yr offer gan Is-bwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol Medrwn Môn.
I dderbyn ffurflen gais cysylltwch â Wendy neu Linda ar 01248 724944.
Dyddiad cau derbyn ffurflenni cais fydd 9 Mawrth 2007.

GWYBODAETH

Dyfarniadau 'yma i HELPU' - www.helpyourselves.org.uk

Mae Achub y Plant a Nwy Prydain yn falch o gyhoeddi rownd ariannu nesaf Dyfarniadau yma i HELPU - hyd at £1,000 ar gyfer prosiectau gan bobl ifanc a fydd yn helpu i wneud eu cymunedau'n iachach, yn fwy deniadol ac yn llefydd diogelach i fyw. Y dyddiad cau nesaf ar gyfer cyflwyno ffurflenni cais yw DYDD GWENER 23AIN MAWRTH.- disgwylir y bydd y prosiectau a fydd yn cael eu hariannu yn cael eu cynnal rhwng Mehefin a Medi 2007. Ceir manylion llawn am y Dyfarniadau yma i HELPU ar ein gwefan. Gellir gwneud cais ar-lein ar ein gwefan hefyd, neu gellir dewis llwytho copi caled o'r ffurflen oddi arni.

Mae nifer cyfyngedig o Ddyfarniadau [hyd at gyfanswm o 7] hyd at £3,000 sy'n amlygu mater allweddol arall sy'n effeithio ar gymunedau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, sef tlodi. I wneud cais am Ddyfarniad gwerth £3,000 bydd angen i chi roi mwy o fanylion yn eich cais a chyflwyno cynllun prosiect llawn. Gellir cael manylion am y ddau fath o Ddyfarniad ar ein gwefan, yn ogystal â'r ffurflenni cais i gyd-fynd â nhw. Yr un dyddiad cau sydd i'r ceisiadau ar gyfer y ddau Ddyfarniad.

Gellir anfon ymholiadau am y Dyfarniadau yma i HELPU ar e-bost at:helpyourselves@savethechildren.org.uk

---

YMDDIRIEDOLAETH TREFTADAETH GYMUNEDOL PORTHAETHWY

Menai Bridge Community Heritage Trust

Roedd Thomas Telford, y peiriannydd sifil enwog, yn gyfrifol am y canlynol (ymhlith eraill):

- yr A5 o'r Amwythig i Gaergybi
- Pont Menai
- Pont Grog Conwy
- Rhannau o harbwr Caergybi.

Fe'i ganwyd ar y Border Albanaidd ar 9fed Awst 1757. Bydd digwyddiadau ar draws Gogledd Cymru i ddathlu'r achlysur rhwng Gorffennaf ac Awst 2007. Cydlynir nifer o ddigwyddiadau gan Ymddiriedolaeth Treftadaeth Cymunedol Porthaethwy ac ICE (Sefydliad Peirianwyr Sifil). Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Ymddiriedolaeth Treftadaeth Cymunedol Porthaethwy ar 01248 712217 ac edrychwch allan am ddigwyddiadau ar eu safle we www.prosiectmenai.co.uk
Neu safle we ICE Wales: http://www.ice-wales.org.uk/

HYFFORDDIANT MEDRWN MÔN

Hylendid Bwyd

Mae'r cwrs wedi ei gynllunio i ddarparu gweithwyr o anghenion sylfaenol o lanweithdra da sydd ei angen. Bydd rhai llwyddiannus sy'n cymryd rhan yn gallu trin diogelwch bwyd a chydymffurfio â'r anghenion cyfreithiol sydd ei angen. Cynlluniwyd y cwrs i addysgu rhai sy'n trin bwyd. Esgeulustod neu anwybodaeth fel arfer sy'n achosi gwenwyd bwyd.
Dim cymhwyster ffurfiol blaenorol ei angen.

Cymhwyster: Tystysgrif Sylfaenol y Sefydliad Siartredig o Iechyd Amgylcheddol mewn Hylendid Bwyd.

Dydd Mawrth 27ain Chwefror 2007. 10.00am – 4.00pm Canolfan Jimmy O'Toole, Caergybi.

Cost y cwrs yw £ 32.00 yn cynnwys cinio

Bydd angen cwblhau papur arholiad syml ar ddiwedd y diwrnod i ennill y cymhwyster.

Meincnod Sicrwydd Ansawdd.

I'r rheolwyr hynny ynghlwm â grwpiau neu mudiadau gwirfoddol / cymunedol sydd angen gwneud datganiad ar safon ac hygrededd eu grwp i'w staff / gwirfoddolwyr a'u defnyddwyr. Bydd y cwrs yn edrych ar sustemau ansawdd e.e adolygiadau perfformiad ynghlwm âmeincnod ansawdd fel 'Buddsoddwyr mewn Pobl'. Canolbwyntir ar y prif faterion o wneud cais am statws 'Buddsoddwyr mewn Pobl'

Dydd Mawrth – 13eg Mawrth 2007, 10.00am – 3.00pm Canolfan Jimmy O'Toole, Caergybi.
Cost £13.00 yn cynnwys cinio

Dyddiad cau ar gyfer y ddau gwrs yw 15ed Chwefror 2007
Am fwy o wybodaeth ar y ddau gwrs uchod gweler y daflen felen yn amgaeedig yn Dan Do 61.

Cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywiad

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywiad, Edwina Hart ar 8 Tachwedd 2006. Y prif eitemau o dan sylw oedd y Trosglwyddiad Stoc Dai a'r cysylltau tuag at fentergarwch cymdeithasol ac adfywio cymunedol, ar themâu cynhwysiad cymdeithasol, mewnbwn y sector gwirfoddol i Gynlluniau Gweithredu Cenedlaethol. Cafwyd hefyd drafodaeth dangiadol ar Adolygiad Beecham o'r Trosglwyddiad Gwasanaeth Lleol 'Tu Hwnt i Ffiniau' a chafwyd sicrwydd fod Cynllun Gweithredu Strategol y Cynulliad ar gyfer gweithio gyda'r sector gwirfoddol 'wedi rhoi'r cydbwysedd iawn' yn ei esboniad ar yr ymrwymiad a ofynnir o lywodraeth leol yn arbennig, i drafod y sector gwirfoddol yn gyfartal mewn cynllunio, comisiynu a throsglwyddiad gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

EIN CYFEIRIAD YW:
Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7EN
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org